PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 15 MAI 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Patel(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Philippa Hill-John, Owen Jones, Caerhirfryn, Mackie, Owen, Wong a/ac Wood |

65 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Lay.

66 : DATGANIAD BUDDIANNAU

Derbyniwyd y datganiad canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau a Deddf Llywodraeth Leol 1972:

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Patel | Eitem 4 | Yr Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am y portffolio pan gafodd y penderfyniad ei wneud. |

67 : COFNODION

Cadarnhaodd y Pwyllgor bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14 Chwefror a 17 Ebrill 2018 yn gofnodion cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

68 : GRANGETOWN WERDDACH – DIWEDDARU'R AELODAU

*Derbyniwyd y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau a Deddf Llywodraeth Leol 1972:*

*Y Cynghorydd Patel - Yr Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am y portffolio pan gafodd y penderfyniad ei wneud.*

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn cynnwys diweddariad o wybodaeth am y Project Grangetown Werddach i Aelodau a oedd yn eu galluogi i asesu'r cynnydd a gyflawnwyd, ystyried y gwersi a ddysgwyd a nodi cyfleoedd posibl yn deillio o'r cynllun.

Roedd y Project Greener Grangetown yn bartneriaeth rhwng Cyngor Caerdydd, Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Nod y project oedd ailystyried y strategaeth ar gyfer rheoli dŵr wyneb mewn rhannau o Grangetown a sbarduno ystod o fuddiannau ar gyfer y gymuned. Cytunwyd ar strwythur partneriaeth ffurfiol ac aeth tri pharti ati i greu a llofnodi cytundeb Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, bwrdd project a phroses ddylunio ac ymgynghori a ariannwyd.

Sail y project oedd y syniad o ddefnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) yn gatalydd i fanteisio i'r eithaf ar fuddion dŵr wyneb, yn hytrach na chael gwared â dŵr wyneb yn syth i'r system garthffosiaeth. Mae'r manteision posibl o roi'r fath gynllun ar waith yn cynnwys gwella safon dŵr, arian, buddion iechyd, cynyddu nifer y

mannau hamdden, ymgysylltu â'r gymuned ag addysg.  Ceir crynodeb o nodau'r project yn yr adroddiad.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Michael Michael, yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd; Andrew Gregory, Cyfarwyddwr; a Matt Wakelam, Rheolwr Gweithredol, Seilwaith a Gweithrediadau i'r cyfarfod. Gwahoddwyd y Swyddogion i wneud cyflwyniad ar y cynllun.

Gwnaeth y Cyfarwyddwr ddatganiad byr am y project.  Dywedwyd wrth yr Aelodau mai hwn oedd y project cyntaf o'i fath a'i fod yn broject blaenllaw o ran rheoli dŵr wyneb yn gynaliadwy mewn amgylchedd trefol.  Roedd y project yn broject heriol a dysgwyd gwersi mewn cysylltiad â'i effaith ar y gymuned ac o ran ymgysylltu â'r cyhoedd.  Bydd cyfle i fynd i'r afael â'r materion hyn yn ystod y cam ôl-drafodaeth. Roedd swyddogion yn parhau i weithio'n glos ag aelodau lleol mewn cysylltiad â rhestr 'camau i'w cywiro' y project ac unrhyw broblemau sy'n ymwneud â phlannu, dylunio a pharcio sydd eto i gael sylw.  Roedd y project yn cynnig cyfle i ddysgu a all fod yn ddefnyddiol i lywio projectau tebyg yn y dyfodol.

Agorodd y Cadeirydd ddadl ar yr eitem hon.  Cafodd Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau.   Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau i swyddog esbonio fformat y cam ôl-drafodaeth a sut byddai pryderon trigolion yn cael eu cynnwys yn y broses honno.  Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai data yn ymwneud â chwynion a sylwadau a wnaed i aelodau lleol yn ystod y cam adeiladu yn cael eu hadolygu.  Roedd y swyddogion o'r farn nad oedd y trigolion yn amgyffred neu'n deall y buddion sydd i'w cael o beidio â phwmpio dŵr wyneb 8 milltir i waith trin carthffosiaeth, ond bod colli man parcio yn effeithio ar eu bywyd bob dydd.

- Holodd Aelodau p'un ai a ystyriwyd y costau cynnal a chadw parhaol sy'n gysylltiedig â'r project.  Roedd y bartneriaeth wedi cytuno i dalu costau cynnal a chadw am 3 blynedd ar gyfer yr elfen blannu sy'n gysylltiedig â'r cynllun.  Bydd swyddogion yn cydweithio ag ysgolion lleol er mwyn ceisio meithrin ymdeimlad o gydberchnogaeth a chyfrifoldeb a rennir.

- Nododd yr Aelodau mae project peilot oedd hwn gan holi p'un ai a oedd unrhyw ardaloedd eraill yn cael eu hystyried.  Dywedodd y Swyddogion y byddai datblygiadau ar Safleoedd Tir Llwyd sydd mewn lleoliadau addas h.y. wrth ymyl afon neu gwrs dŵr, megis yn Dumballs Road a safle Brains Brewery, yn cynnwys cynlluniau draenio trefol cynaliadwy.  Nododd y Swyddogion nad oedd unrhyw gynlluniau pendant i gyflawni cynlluniau tebyg i Broject Grangetown Werddach ar hyn o bryd.   Mae afonydd a chyrsiau dŵr mawr yn addas.  Bydd y datblygiadau newydd yng ngogledd a gogledd-orllewin y Ddinas hefyd yn cynnwys cynlluniau draenio trefol cynaliadwy.

- Holodd Aelod p'un ai a fyddai ansawdd yr aer yn gwella a ph'un ai a fydd gwaith monitro aer yn digwydd.  Dywedodd y Swyddogion y byddai'r cynllun plannu yn helpu i wella ansawdd yr aer.  Mae cynigion i gyflwyno goleuadau stryd LED ac mae'r colofnau goleuadau stryd LED newydd hyn yn gallu cynnal synwyryddion ansawdd aer.

- Dywedodd y Swyddogion bod yr orsaf bwmpio leol wedi bod yn gweithio hyd at ei heithaf o'r blaen ac felly byddai tynnu dŵr wyneb allan o'r system garthffosiaeth yn

galluogi rhagor o waith datblygu yn yr ardal a hefyd yn helpu i leihau'r ôl troed carbon.

- Holodd yr Aelodau a oedd yr arian cychwynnol a ddarparwyd ar gyfer y project yn ddigonol. Dywedodd y swyddogion mai un o'r gwersi a ddysgwyd oedd bod rhaid i bob parti ddeall yn glir ar gyfer beth y gellir defnyddio eu dyraniad cyllid. Er enghraifft, gellid defnyddio arian Dŵr Cymru dim ond ar gyfer gwella draeniau. Fodd bynnag, ar ôl cwblhau'r project peilot mae'n bosibl bod y partneriaid mewn sefyllfa well i wneud cais am arian grant yn y dyfodol.

- Holodd yr Aelodau p'un ai oedd cyfyngiadau'n gysylltiedig ag 'ôl-osod' cynlluniau draenio trefol cynaliadwy mewn ardaloedd preswyl sefydledig a ph'un ai a yw'r fath gynlluniau yn fwy priodol ar gyfer datblygiadau newydd. Dywedodd y Cyfarwyddwyr ei bod yn llawer haws cynnwys SDCau mewn datblygiadau newydd – heb unrhyw gost i'r awdurdod. Mae datblygiad Plasdwr yn cynnwys SDCau. Mae'r gost o roi cynlluniau ôl-osod ar waith mewn cymunedau sy'n bodoli eisoes yn llawer uwch – byddai'r gost o ddarparu SDCau mewn datblygiadau tir llwyd tua 40-50% yn is.

- Holodd yr Aelodau, gan fod yna fudd ariannol i Dwr Cymru, a fydden nhw'n cyfrannu at y gost o gynnal a chadw'r project. Mae hyn eisoes wedi'i drafod yn ôl y swyddogion. Cytunodd y partneriaid y byddai'n well petai'r Cyngor yn cynnal a chadw'r project gyda chymorth gan Dŵr Cymru.

- Holodd yr Aelodau i ba raddau y cafodd y gymuned leol ei chynnwys yn y gwaith o ddylunio a gweithredu'r project. Dywedodd y Swyddogion yr ymgynghorwyd â'r gymuned. Newidiwyd y cynllun a symudwyd lleoliad y blychau planhigion o ganlyniad. Dywedodd trigolion nad oeddent am golli mannau parcio y tu allan i'w heiddo. Roedd y Swyddogion o'r farn bod ffocws y cynllun wedi mynd ar ddisberod yn ystod y gwaith o drafod problemau parcio. Mae angen i sefydliadau partner ddysgu gwers yn seiliedig ar hyn. Mae mannau parcio yn pryderu trigolion yn fawr ac felly dylid rhoi ystyriaeth bwysig iddynt wrth gynllunio projectau tebyg yn y dyfodol gan eu bod yn cael effaith ar fywyd pob dydd pobl. Roedd yr Aelod Cabinet o'r farn hefyd ei bod yn bwysig i ategu buddion y fath gynlluniau a dangos yr hyn a gyflawnwyd.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

## 69 : CRAFFU CYN PENDERFYNIAD AR BAPUR Y CABINET O'R ENW 'STRATEGAETH RHEOLI GWASTRAFF AC AILGYLCHU – 2018 TAN 2021' - I DDILYN

Roedd adroddiad o'r enw 'Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff – Gofynion Cynllun Cyflawni 2018 0 2021' i fod i gael ei ystyried gan y Cabinet ar 17 Mai 2018. Nod yr adroddiad yw nodi cynnydd elfennau o Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff 2015-18 a diweddaru'r strategaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf. Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y canlynol:

- Ehangu'r ddarpariaeth bin olwynion yn y ddinas;
- Newidiadau arfaethedig i orsafoedd addysg Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC);
- Cynllun peilot ar gyfer casglu gwastraff gwydr domestig i'w ailgylchu;

- Ymgynghoriad ar Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff 2018-21, yn ogystal â'r seilwaith, partneriaid a safonau sydd eu hangen yn y dyfodol i fodloni targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru.

Dywedwyd wrth yr Aelodau mai Caerdydd yw'r Ddinas Graidd sydd â'r gyfradd ailgylchu a gwastraff orau ym Mhrydain a bod arbedion effeithlonrwydd a chostau gwasanaeth yn parhau i fod yn flaenoriaethau i'r Cyngor. Nod Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff 2015-18 yw ymateb i'r heriau hyn. Hefyd, os na fydd y Cyngor yn cynyddu ei berfformiad ailgylchu flwyddyn ar ôl blwyddyn yna gall y dirwyon blynyddol godi'n gyflym. Os bydd y cyfraddau ailgylchu yn parhau ar 60% yna mae'n bosib y gall y dirwyon gynyddu i £10.45m erbyn 2025.

Mae marchnadoedd ailgylchu byd-eang hefyd yn effeithio ar wasanaethau. Ers cymeradwyo'r Strategaeth yn 2015, mae marchnadoedd ailgylchu wedi gostwng o ran gwerth, tra bod y gofynion o ran ansawdd deunyddiau ailgylchu wedi cynyddu. Mae hyn wedi rhoi mwy o bwysau ar y gwasanaeth i wella ansawdd y gwaith o wahanu a sicrhau deunyddiau glân o gasgliadau ymyl y ffordd a CAGCau.

Bydd y strategaeth a ddiweddarwyd yn amlinellu'r newidiadau i'w cyflwyno â'r bwriad o yrru cam nesaf darpariaeth ailgylchu'r Cyngor yn ei flaen a bodloni ymrwymiadau statudol y Cyngor. Mae Llywodraeth Cymru a dogfen Uchelgais Prifddinas y Cyngor yn rhoi pwyslais mawr ar addysg ailgylchu, strydoedd glanach a phartneriaethau cymunedol. Mae'r rhain yn bwysig iawn i'r strategaeth ddiweddaredig hefyd.

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r ddeddfwriaeth allweddol sy'n ymwneud ag ailgylchu a rheoli gwastraff. Er mwyn bodloni'r gofynion deddfwriaethol dan sylw, bydd y Cyngor yn cynyddu ei gyfraddau ailgylchu o 60% i 64% yn ystod y ddwy flynedd nesaf; ac i 70% erbyn 2024-25. Mae'r strategaeth yn esbonio'r meysydd i'w gwella o ran perfformiad a sut mae'r Cyngor yn bwriadu helpu trigolion, busnesau a'i wasanaethau i gyflawni'r newidiadau hynny drwy edrych ar botensial ailgylchu a chanolbwyntio ar wella'r cynnyrch ar draws gwahanol ffrydiau gwastraff i wella perfformiad.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Michael Michael, Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd i siarad gerbron y Pwyllgor. Dywedodd y Cynghorydd Michael bod y strategaeth a ddiweddarwyd yn esbonio sut mae'n rhaid i'r Cyngor wella ei berfformiad wrth ailgylchu a sut y gall sicrhau cyfradd ailgylchu o 70% erbyn 2024-25. Roedd y Cynghorydd Michael o'r farn mai'r rheswm pam mai Caerdydd yw'r ddinas graidd orau o ran ailgylchu yw am fod y cyhoedd o blaid ailgylchu; a bod pobl yn hoffi eu bin olwynion. Mae'r strategaeth a ddiweddarwyd wedi nodi bod 3000 o gartrefi eraill yn gallu ymuno â'r cynllun bin olwynion. Ymrwymodd yr Aelod Cabinet i ymgysylltu ag Aelodau Ward mewn cysylltiad â'r cynnig hwn.

Bu Tara King, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Masnachol a Chydweithio hefyd yn siarad â'r Pwyllgor gan roi crynodeb o brif themâu'r strategaeth/

Gwahoddwyd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor i wneud sylwadau, ceisio eglurder neu godi cwestiynau am yr wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- O ran treialu gwahanu deunyddiau ailgylchu gwydr, gofynnodd yr Aelodau am fanylion yr ardaloedd sy’n rhan o’r cynllun peilot. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod 7 ardal o fewn nifer o wardiau wedi’u nodi. Diben y cynllun peilot yw canfod faint o wydr y gellid ei gasglu p’un ai oes modd gwella’r ansawdd. Bydd y cynllun peilot ar waith am gyfnod o 3 i 6 mis a chaiff adroddiad ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor cyn i’r Cabinet benderfynu sut i weithredu.
  Cyfeiriodd Aelod at dudalen 51 yr adroddiad gan holi p’un ai oedd y datganiadau a wnaed na fyddai’r awdurdod yn rhoi ystyriaeth i estheteg ond y byddai statws ardal gadwraeth yn cael ei ystyried yn gwrth-ddweud ei hunain wrth wneud penderfyniadau ynghylch ymestyn y cynllun bin olwynion. Dywedodd y Swyddogion bod sawl haen o feini prawf yn gysylltiedig ag ardaloedd cadwraeth a bod gan rai ardaloedd haenau uwch a all fod yn waharddol, ond nad yw'r un haenau ar waith mewn ardaloedd eraill. Cynigir ymgynghori ag aelodau lleol yn gyntaf er mwyn asesu eu gwybodaeth am y cyfryw faterion.

- Gofynnodd Aelod i’r Aelod Cabinet wneud sylw ar erthygl yn y wasg leol a oedd yn honni bod y Cyngor yn gwrthod enwi'r ardaloedd y cynigir eu cynnwys yn y cynllun bin olwynion. Dywedodd yr Aelod Cabinet nad yw’r Cyngor yn gwrthod datgelu’r manylion hyn ond bod rhaid ymgynghori ag aelodau lleol cyn cyhoeddi’r manylion.

- Holodd Aelodau p’un ai yw’r awdurdod yn bwriadu cynyddu tunelledd masnachol gan fasnachwyr annibynnol neu gan weithredwyr mawr. Dywedodd yr Aelod Cabinet bod tua 3300 o fasnachwyr masnachol – sef 30% o fusnesau yn y Ddinas. Mae pob busnes yn wahanol ac mae rhai busnesau yn wynebu heriau mewn cysylltiad â’r capasiti i storio. Felly mae angen buddsoddi mewn gwasanaethau mwy pwrpasol. Cynigir gwasanaethau casglu gwastraff i fusnesau mawr a bach. Mae busnesau mawr yn gallu ymdrin â gwahanu ond mae’r gwaith hwn yn fwy heriol i fusnesau bach. Mae’r Cyngor yn cystadlu gyda’r sector preifat at gontractau a’r gobaith yw y gall Deddf Amgylchedd Llywodraeth Cymru helpu i sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle.

- Roedd yr Aelodau yn ystyried bod y targedau a nodir yn y strategaeth yn uchelgeisio a bod darparu CAGC newydd yng ngogledd y ddinas yn fater pwysig y mae'n rhaid mynd i'r afael ag o.

- Gofynnodd Aelodau a oedd modd cynnwys calendr yn y pecynnau gwybodaeth a gaiff eu dosbarthu i’r rheiny sy’n cymryd rhan yn y cynllun peilot ar gyfer y rheiny sy’n ddibynnol ar ohebiaeth papur. Cadarnhaodd Swyddog y byddai trigolion yn cael pecyn gwybodaeth cynhwysfawr a fydd yn cynnwys calendr. Bydd y wybodaeth ar gael mewn nifer o ieithoedd ac mae'r awdurdod hefyd yn treialu'r 'bot digidol' sy'n cynnig gwybodaeth ar ffurf negeseuon ffôn wedi’u recordio sydd ar gael mewn mwy na 100 o ieithoedd.

- Croesawodd yr Aelodau y ffaith bod y Cyngor yn mynd i'r afael â pjlastig untro. Gofynnod yr Aelodau i swyddogion amlinellu’r cynigion ar gyfer cynyddu’r gyfradd ailgylchu plastig. Dywedodd Swyddog bod ailgylchu plastig yn fater cymhleth oherwydd yr holl wahanol fathau o blastig sydd yn y llif gwastraff. Mae’r CAD yn gallu gwahanu llestri plastig megis poteli a chynwysyddion eraill ac mae’r awdurdod wedi buddsoddi mewn peiriant didoli awtomatif sy’n gallu didoli plastigau ar sail eu lliw a'u pwysau, gan wella safon y gwaith gwahanu. Fodd bynnag, mae plastigau ystwyth yn achosi problemau yn ystod y broses ddidoli gan eu bod yn gallu cloi offer didoli. Mae’r farchnad ar gyfer plastig ystwyth yn anwadal. Dywedodd Swyddogion eu bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Phartneriaid y Fargen Ddinesig i ymchwilio i gyfleoedd i sefydlu cyfleusterau ailgylchu plastig yn y rhanbarth. Ystytyriwyd bod rhaid i’r ateb hirdymor gynnwys sefydlu cyfleuster ailbrosesu yn lleol. Dywedodd yr Aelod Cabinet bod angen i

Gymru ddod o hyd i ateb i'r broblem o ailbrosesu deunyddiau ailgylchu fel y gellid defnyddio deunyddiaub ailgylchu yn hytrach na gwneud yr awdurdodau yn ddibynnol ar farchnadoedd ailgylchu.

- Holodd Aelod p’un ai oedd cyfleoedd i ailgylchu yn cael eu colli megis mewn blociau o fflatiau, lle nad oes darpariaeth ar gyfer storio cadis gwastraff bwyd sy'n golygu bod gwastraff bwyd yn cael ei gynnwys gyda gwastraff cyffredinol. Dywedodd Swyddogion bod angen systemau pwrpasol ar flociau o fflatiau ond bod y gwasanaeth yn hapus i edrych ar leoliadau penodol. Mae gan fflatiau â pherchenogaeth a rennir finiau cymunedol yn aml y gwyddys eu bod wedi'u halogi'n fawr. Mae gan y gwasanaeth ‘swyddog fflatiau’ dynodedig sy’n gyfrifol am y materion hyn.

- Holodd y Pwyllgor p’un ai yw’r Cyngor yn lobio neu'n ceisio dwy perswad ar fanwethwyr i leihau faint o bacediadau sydd yn y llif gwastraff. Dywedodd y Swyddogion y cynhaliwyd trafodaethau gydag un o WEinidogion Llywodraeth Cymru sy’n awyddus i fynd i’r afael a phacediadau yn Strategaeth Gwastraff Cymru. Bwriedir cynnal ymgynghoriad ar Strategaeth Gwastraff Cymru yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn. Mae Strategaeth Gwastraff Cymru yn gynllun hirdymor ac mae swyddogion wedi awgrymu cyflwyno ffiniau deddfwriaethol ar gyfer llywodraethu pacediadau ar lefel genedlaethol. Mae’r awdurdod yn gallu lobio Llywodraeth Cymru. Yn ôl y sôn, dywedwyd wrth Aelodau bod tueddiadau yn awgrymu bod y lefelau o ran defnyddio pacediadau yn gostwng a bod defnyddio cardfwrdd yn cynyddu, a all awgrymu bod busnesau’n addasu.

- Gofynnodd yr Aelodau i swyddogion am grynodeb o'u cynigion mwyaf arloesol ar gyfer delio â chasgliadau gwastraff ac ailgylchu yn y DDinas. Dywedodd yr Aelod Cabinet nad yw’r dull sylfaenol o gasglu gwastraff yn y ddinas wedi newid ers amser maith. Mae’r gwasanaeth wrthi’n ystyried sut a phryd i gasglu gwastraff. Er enghraifft, efallai y bydd yn fwy addas i gasglu gwastraff gyda’r nos mewn rhai wardiau ac mae’n bosibl y gellir casglu gwastraff ar benwythnosau neu ŵyl y banc.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

## 70 : PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL - ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT

Cyflwynodd y Prif Swyddog Craffu adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor ar gyfer 2017/18 a gofynnwyd am sylwadau ar strwythur yr adroddiad gan Aelodau’r Pwyllgor.

Dywedodd y Prif Swyddog Craffu y caiff rhestr o eitemau y gellid eu cynnwys ar raglen waith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol ei dosbarthu dros e-bost er mwyn i'r Pwyllgor roi eu hadborth arni. Caiff y rhestr hon ei defnyddio ei lywio’r rhaglen waith yn ystod 2018/19.

PENDERFYNWYD - nodi’r adroddiad.

## 71 : PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL - RHAGLEN WAITH 2017/18

Ystyrioedd yr Aelodau ba eitemau i’w cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer cyfarfodydd nesaf y Cyfarfod. Gofynnwyd i’r Prif Swyddog Craffu ddosbarthu agenda ddrafft ar gyfer cyfarfodydd mis Mehefin a mis Gorffennaf y Pwyllgor dros e-bost.

72 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF.

Hysbyswyd yr aelodau y byddai cyfarfod y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol nesaf yn cael ei gynnal ar 5 Mehefin 2018

Daeth y cyfarfod i ben am 6.50 pm